**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee on the Residential Outdoor Education (Wales) Bill**

**ROE 02**

**Ymateb gan: Urdd Gobaith Cymru.**
**Response from: Urdd Gobaith Cymru.**

---

## 1. Pwy ydym ni?

1.1 Nod Urdd Gobaith Cymru yw sicrhau cyfleoedd a phrofiadau, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru ddatblygu'n ddinasyddion cyflawn hyderus. Rydym yn fudiad uchelgeisiol sy'n arloesi wrth ymestyn ein cynnig i bawb. Rydym wedi meithrin cenedlaethau o bobl ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i'r byd ac yn ymgorfforiadau o'n hiaith a'n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd byd-eang a berchir yng Nghymru. Mae'r Urdd yn hanfodol i ddyfodol yr iaith Gymraeg ac i Gymru.

1.2 Sefydlwyd Urdd Gobaith Cymru, mudiad ieuenctid mwyaf Cymru yn 1922. Rydym yn fudiad unigryw lle mae'r Gymraeg yn ganolog i'n gwasanaeth ac sy'n ymateb i ofynion plant a phobl ifanc heddiw. Nid oes ei thebyg yn y byd ac rydym yn cael ein cydnabod yn rhyngwladol am arwain y ffordd yn narpariaeth ieuenctid llwyddiannus drwy iaith leiafrifol. Mae'r profiadau rydym yn eu cynnig yn amrywio o gyfleoedd chwaraeon, gwaith ieuenctid, celfyddydol, preswyl, dyngarol, awyr agored, rhyngwladol, prentisiaethau, hyfforddi a gwirfoddoli. Mae effaith ein gwaith yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau a chymdeithas, ymestyn eu gorwelion a chynyddu eu hunan hyder.

## 2. Gwersylloedd yr Urdd

2.1 Mae Gwersylloedd yr Urdd yn ganolfannau bywiog ar gyfer meithrin datblygiad unigolion, gan greu amgylchedd deinamig lle gall plant Cymru ffynnu. Mae Gwersylloedd yr Urdd wedi cael ei lleoli ar hyd Cymru;

- Gwersyll Llangrannog yn Sir Ceredigion (Gwefan Llangrannog: https://www.urdd.cymru/cy/ein-gwersylloedd/llangrannog/)
- Gwersyll Caerdydd yng Nghaerdydd (Gwefan Caerdydd: https://www.urdd.cymru/cy/ein-gwersylloedd/gwersyll-caerdydd/)
- Gwersyll Glan-llyn a Gwersyll Glan-llyn Isa' yng Ngwynedd (Gwefan Glan-llyn: https://www.urdd.cymru/cy/ein-gwersylloedd/glan-llyn/ a Gwefan Glan-llyn Isa: https://www.urdd.cymru/cy/ein-gwersylloedd/glan-llyn-isa/)

- Gwersyll Pentre Ifan yn Sir Benfro (Gwefan: https://www.urdd.cymru/cy/ein-gwersylloedd/pentre-ifan/)

2.2 Mae'r Gwersylloedd yn darparu cyfuniad unigryw o weithgareddau addysgol a hamdden, gan gynnig ymagwedd gyfannol at ddysgu. Gyda chyfleusterau o'r radd flaenaf a ffocws ar hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant, mae'r gwersylloedd yn chware rhan ganolog wrth lunio unigolion cyflawn. O anturiaethau awyr agored i drochi diwylliannol, mae canolfannau preswyl yr Urdd yn creu atgofion parhaol ac yn meithrin ymdeimlad o gymuned, gan eu gwneud yn gaffaeliad amhrisiadwy i ddysgwyr ifanc Cymru.

## 3. Ein Cynulleidfa

3.1 Mae'r Gwersylloedd yn croesawu 103,000 o wersyllwyr y noson y flwyddyn, ac yn cynnig dros 800 o gyrsiau ar draws y pum gwersyll.

3.2 Mae 52% o Ysgolion Cymru yn ymweld â'r Gwersylloedd.

3.3 Mae 39% o'n gwersyllwyr yn dod o ysgolion cyfrwng Cymraeg, gyda 61% yn dod gydag Ysgolion cyfrwng Saesneg ond yn cael eu gweld fel dysgwyr Cymraeg.

3.4 Mae 26% o Ysgolion ac ymwelodd y Gwersylloedd yn dod o'r 20% ward mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

## 4. Datblygiad Unigolion

4.1 Nod gwersylloedd yr Urdd yw creu canolfannau sy'n cynnig cyfleoedd i blant ac ieuenctid preswyl, addysgu a chymdeithasu mewn awyrgylch Cymraeg a Chymreig, diogel a chroesawgar. Mae'r gwersylloedd yn datblygu plant a phobl ifanc drwy roi'r profiad o fod yn annibynnol oddi cartref gan ehangu gorwelion plant a phobl ifanc trwy gynnig gweithgareddau y tu allan i'w profiad arferol. Trwy gwrdd â'r sialensiau hyn fe fydd plant a phobl ifanc yn dysgu i addasu a chyfaddawdu, a thrwy hyn ennyn yr hyder sy'n gwbl allweddol i ddatblygu yn unigolyn cyflawn.

4.2 Mewn arolwg oedd yn edrych ar lesiant plant a phobol ifanc oedd wedi ymweld â'r Gwersylloedd:.

- 83% wedi gweld cynnydd yn nefnydd iaith eu disgyblion.
- 76% o ddisgyblion wedi cynyddu eu defnydd o ymarfer corff yn gyffredinol.
- 96% yn gweld gwelliant yn eu hunan hyder.
- 64% wedi parhau a'r gweithgareddau a brofwyd am y tro cyntaf yn Llangrannog.
- 97% wedi gwneud ffrind newydd.

**5. Dinasyddiaeth a'r Gymraeg**

5.1 Mae Gwersylloedd yr Urdd yn gweithredu ar yr ethos o Ddysgu Trwy Weithgaredd, a chredwn yn gryf fod yr ethos yma wedi profi yn effeithiol wrth gynorthwyo a datblygiad a hunan hyder unigolion.

5.2 Yng Ngwersylloedd yr Urdd rydym yn creu amgylchedd diogel a hapus i bob plentyn a pherson ifanc sy'n mynychu'r Gwersyll. Ein gobaith ydy paratoi profiadau perthnasol a chofiadwy i'r bobl ifanc fel y byddant yn mwynhau'r presennol ac, ar un pryd, y byddant yn datblygu'n bersonau cytbwys annibynnol, yn ddinasyddion caredig, cyfrifol.

5.3 Dyfyniadau gan athrawon a rhieni:

*"It was great to hear Welsh being used bilingually and during a range of activities. It made us, as teachers, give a great deal of thought of how we can improve our use of everyday Welsh within our own educational setting."*

*"The trip enhances children's understanding of the Welsh culture and 'cynefin'. Visting the Senedd for example, highlighted the decision-making process for Wales. Seeing a large Welsh city also highlighted aspects of Wales that some children might not see."*

"Mae hyn yn brofiad gwerthfawr tu hwnt , o safbwynt y plant, y swogs o'r chweched sydd yn dod i'w helpu a hwythau fel athrawon. Mae'r ffaith eu bod yn clywed staff ifanc yn siarad Cymraeg yn agoriad llygad iddynt ac yn ogystal â hyn maen nhw yn gorfod addasu eu clustiau i ieithwedd a thafodiaith wahanol. Mae criw'r chweched, o fod yng Nglan-llyn yn magu balchder yn eu Cymreictod, ac yn defnyddio'r iaith heb orfod cael eu hannog i'w gwneud hynny. Mae hyn yn ei dro yn cael effaith ar sut mae'r plant iau wedyn yn fwy bodlon i ddefnyddio iaith a magu balchder yn hynny"

*"She absolutely loved her visits to you, thanks. She came with Pentyrch Primary in 2022 and with Radyr Comp in 2022 or 2023.. She is on the autistic spectrum and you were incredible with her. Her experiences at Llangrannog contributed to her increased sense of well-being, improved belief in her self, encouraged her level of confidence, and have enriched her enormous adventurous spirit. Llangrannog helped her to grow!!"*

*"The children had been taught some Welsh before coming. Hearning Welsh speakers gave them the confidence to try using it. The visit to the Senedd was fantastic and gave them a much deeper understanding of democracy."*

"Y daith yn fudd i gymdeithasu a Chymreictod a datblygu annibyniaeth'

## 6. Cronfa i Bawb

6.1 Cronfa i Bawb yw cynllun sydd wedi cael ei sefydlu gan Urdd Gobaith Cymru, lle mae unigolion, cwmnïau a sefydliadau yn ariannu plant i ddod ar gyrsiau haf yr Urdd.

6.2 Pwrpas Cronfa i Bawb yw sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael cyfle i fwynhau gwyliau haf, beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau ariannol. Bu dros 100 o blant a phobol ifanc yn ymweld â gwersylloedd yr Urdd dros yr haf.

6.3 Eleni, derbyniodd yr Urdd 110 o geisiadau, mwy nag erioed ar gyfer y cynllun, a gafodd ei sefydlu yn 2019. Roedd 18% o'r plant a phobl ifanc oedd ar gyrsiau haf yr Urdd wedi eu hariannu trwy'r cynllun.

6.4 Mae'r Gronfa Cyfle i Bawb yn gynllun sy'n cynnig cyfle i blant a phobol ifanc sy'n byw mewn tlodi neu amgylchiadau heriol fynychu Gwersyll Haf yng Nglan-llyn, Llangrannog neu Gaerdydd. Roedd 81% o'r rheini oedd wedi cael cynnig lle yn derbyn cinio ysgol am ddim.

6.5 Yn dilyn y cwrs fe ofynnwyd i rieni os gwnaeth eu plant fwynhau'r cwrs, ymatebodd 100% yn bositif, yn ogystal roedd 96% yn credu fod eu plant wedi magu hyder ers bod ar un o'r cyrsiau.

## 7. Gwasanaeth Awyr Agored

7.1 Mae'r gwasanaeth yn cynnig profiadau anturus awyr agored i blant a phobl ifanc ar draws Gymru. Mae'r gweithgareddau yn cael eu teilwra ar gyfer bob cwrs ac yn cynnwys, beicio mynydd, dringo, cerdded afon, arfordira, canŵio, padl fyrddio, chyfeiriannu a llawer mwy. Caiff y cyrsiau yma eu cynnig o fewn ein cymunedau neu fel profiad gwersyll. Mae'r Gwasanaeth Awyr Agored yn ogystal yn cynnig cyrsiau unigryw i amlygu buddion yr awyr agored i iechyd meddwl ac yn arbenigo mewn darparu alldeithiau Gwobr Dur Caeredin drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog.

7.2 Mae'r Gwasanaeth Awyr Agored yn chwarae rhan hanfodol yn meithrin iechyd meddwl cadarnhaol a lles cyffredinol ymhlith cyfranogwyr ifanc. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi dangos ei effaith gadarnhaol ar iechyd a lles, ac wedi ei ategu gan gyfoeth o dystiolaeth. Mae astudiaethau niferus wedi dangos yn gyson bod dod i gysylltiad â natur, ynghyd â gweithgaredd corfforol, yn cyfrannu'n sylweddol at leihau straen, gwell hwyliau, a lles meddwl cyffredinol.

7.3 Yn ogystal, mae'r heriau a gyflwynir yn ystod alldeithiau awyr agored yn gyfle i adeiladu cymeriad a datblygu sgiliau meddal fel gwydnwch, gwaith tîm a datrys problemau. Mae'r profiadau hyn yn mynd y tu hwnt i leoliad traddodiadol yr ystafell ddosbarth, gan gynnig cyfleoedd cyflawn a chyfannol tuag at dwf personol sy'n cwmpasu agweddau meddyliol ac emosiynol. Mae pwyslais y rhaglen ar ddysgu yn yr awyr agored yn cyd-fynd yn ddi-dor â'r nod ehangach o feithrin unigolion cydnerth, cyflawn sydd â sgiliau bywyd gwerthfawr.

7.4 Yn ystod y flwyddyn ariannol 22/23 mae’r Gwasanaeth Awyr Agored wedi gweithio gyda dros 5000 o blant a phobl ifanc. Mae 3000 o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn y rhaglen iechyd a lles gyda dros 1000 o bobl ifanc wedi cwblhau alldaith aml noson yn yr awyr agored.